**Atodiad 1**

# Adroddiad ar yr ymgynghoriad

***Ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch presennol Ysgol Felinwnda***

**Ionawr 2025**

## 1. Cyflwyniad

Mae’r adroddiad yma’n cyflwyno crynodeb o’r ymatebion a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad ar ddyfodol dalgylch Ysgol Felinwnda.

**Yr Ymgynghoriad:**

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn rhan-ddeiliaid penodol ynglŷn â pha ysgol, neu ysgolion ddylai wasanaethu dalgylch Ysgol Felinwnda i’r dyfodol.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 24 Medi 2024 a daeth i ben ar 22 Hydref 2024.

**Crynodeb o’r ymatebion:**

Derbyniwyd cyfanswm o **11** o ymatebion i’r ymgynghoriad.


Cyflwynwyd 10 ymateb drwy holiadur ar-lein, a cyflwynwyd 1 ymateb drwy ffurflen PDF a dderbyniwyd dros e-bost.

## 2. Yr ymatebion:

## Rhan 1:

**Cwestiwn 1: Yr Opsiynau**

Yn gyntaf, gofynnom i ymatebwyr i ystyried yr opsiynau dan sylw, a'u gosod mewn trefn, o'r mwyaf ffafriedig (1) i'r lleiaf ffafriedig (4).





Bu i Opsiwn 1 dderbyn cefnogaeth, gyda 5 allan o'r 11 o ymatebwyr yn ei nodi fel opsiwn ffafriedig. Ffafriwyd Opsiwn 2 gan 2 o'r ymatebwyr, a ffafriwyd Opsiwn 3 gan 1 o'r ymatebwyr yn ogystal. Nodwyd Opsiwn Amgen, fel opsiwn ffafriedig gan 3 o'r ymatebwyr.

**Cwestiwn 2: Opsiwn neu opsiynau amgen**

Yn ail, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi unrhyw opsiwn/opsiynau eraill hoffent i'r Awdurdod eu hystyried. Bu i 3 ymatebydd nodi opsiynau amgen. Roedd yr opsiynau hyn yn cynnwys:

- *"Gosod y cyfan o dalgylch Felinwnda o fewn dalgylchoedd Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd."*
- *"...opsiwn 3 yn cael ei addasu ar sail yr ardal a'r gymuned wledig. Dylai unrhyw ffin sy'n cael ei gwneud rhwng dwy ardal fod yn weladwy ac yn ddealladwy i bawb - ac yn synhwyrol i'r ardal a'r gymuned."*
- *"...defnyddio mynediad diogel i lôn las fel ffin dalgylch Bontnewydd yn ffordd amgen i feddwl am ddalgylch modern i gyd-fynd ac amcanion yr ysgol newydd. Gan ddefnyddio'r ffordd newydd A487 fel ffin yn ffordd glir i egluro ffiniau dalgylch. Gan ddilyn y ffordd o Afon Gwyrfai i Gylchfan Llanwnda, byddai'r aneddiadau i'r dwyrain o'r ffordd (Pentrefi Dinas a Llanwnda) yn ymuno a dalgylch Bontnewydd, gyda'r ardal wledig i'r dwyrain o'r ffordd yn ymuno a dalgylch Llandwrog."*



**Cwestiwn 3: Sylwadau ar yr opsiynau**

Yna, gofynnom am sylwadau ar yr opsiynau. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi eu nodi yn y tabl isod. Mae'r rhain yn cynnwys cymysgedd o ddyfyniadau uniongyrchol ac aralleirio (lle na dderbyniwyd caniatâd i gyhoeddi'r ymatebion). Mae'r testun a aralleiriwyd wedi ei ***amlygu'n las***.

| Cefnogaeth i Opsiwn 1 | Amlder y sylwad |
|---|---|
| Credaf mai opsiwn 1 yw'r opsiwn gorau gan fod yna gysylltiad cryf wedi bod rhwng Ysgol Felinwnda ac Ysgol Llandwrog dros y blynyddoedd diwethaf. Rhannwyd yr un pennaeth, ac roedd plant Ysgol Felinwnda yn mynychu Ysgol Llandwrog ar gyfer amrywiol weithgareddau ar y cyd. | 1 |
| Yn ogystal mae dalgylch presennol Felinwnda yn un gwledig sydd yn ymdebygu efo naws a natur dalgylch Ysgol Llandwrog. Byddai opsiwn 1 yn dod a dau ddalgylch tebyg ynghyd. Hefyd, opsiwn 1 sy'n debygol o arwain at gryfhau a sicrhau dyfodol Ysgol Llandwrog a'r gymuned wledig leol, drwy gynyddu'r niferoedd yn Ysgol Llandwrog. Byddai hefyd yn arwain at ddosbarthiadau mwy, gydag oedrannau mwy cyfartal, a chynnydd yn y cyfleoedd i blant o'r un oedran eu cael efo'i gilydd. | 1 |
| Credaf mai opsiwn 1 fyddai'n ffafrio ac yn diogelu Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda a Chanolfan Bro Llanwnda orau. | 1 |
| ***Byddai opsiwn 1 yn sicrhau'r parhad yn y cysylltiad a'r dilyniant naturiol rhwng y Cylch Meithrin ac Ysgol Llandwrog.*** | 1 |
| ***Mae gan Ysgol Llandwrog yr ethos ac egwyddorion addysgol a bugeiliol ag Ysgol Felinwnda. Mae hefyd yn ymdebygu i'r cymuned yn Felinwnda.*** | 1 |
| Gwarchod Ysgol fach wledig trwy anfon y plant i Ysgol Llandwrog. | 1 |
| Rhaid sicrhau dyfodol i ysgolion wledig fel Llandwrog ac mae hwn yn rhoi cyfle gwych i eganhu ardal yr ysgol yma. Rhaid cynnwys pentrefi clwstwr sydd â gwreiddiau yn y gymuned ar pentrefi gyda lefel uchel o iaith Gymraeg yn ardal ysgol Llandwrog er mwyn sicrhau ffyniant yn y iaith a fod pentrefi cyfagos yn parhau i fod yn Gymraeg. | 1 |
| **Cefnogaeth i Opsiwn 2** | |
| Mae'r rhan helaeth o ddisgyblion yr ardal yn mynychu ysgol Bontnewydd, ac roedd hyn yn wir am nifer o flynyddoedd cyn i ysgol Felinwnda gau felly mae'n gwneud synnwyr mai dyma yw'r ffordd symlaf i fynd ymlaen. Er hynny, os ydi rhieni sydd yn agosach i ysgol Llandwrog yn dymynu i'w plant fynychu ysgol Llandwrog gallaf weld god opsiwn 2 yn gendu synnwyr. Fel rhiant i blentyn fydd yn mynd i'r ysgol mewn [] flynedd, yn bendant ysgol Bontnewydd rydw i'n dymynu *[i'r plentyn]* fynd. | 1 |
| **Opsiynau Amgen** | |
| Dylid dilyn yr opsiwn amgen (4) fel amlinellir uchod "Gosod y cyfan o dalgylch Felinwnda o fewn dalgylchoedd Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd". Bydd yr opsiwn hon yn sicrhau parhad rhyddid dewis trwy sicrhau fod statws dalgylch yn parhau i effeithio Ysgol Llandwrog a Ysgol Bontnewydd mewn ffordd gyfartal, a bydd poblogaeth Dalgylch Felinwnda yn elwa o'r hawl cryfach i le a'r cynnig cludiant mewn perthynas a'r ysgol o'u dewis. Mae poblogaeth cymharol fychan Dalgylch Felinwnda, a hyblygrwydd o ran mynediad i ddisgyblion alldalgylch i ysgolion yng Ngwynedd yn golygu na fydd effaith sylweddol o ran gallu cynllunio llefydd o fod a dalgylchoedd Ysgol Bontnewydd a Llandwrog yn gorgyffwrdd. Nid oes unrhyw rwystr deddfwriaethol i dalgylchoedd or-gyffwrdd. | 1 |
| Cymeryd i ystyriaeth y plant sydd yn mynychu Ysgol Llandwrog yn barod o dalgylch Ysgol Felinwnda | 1 |
| **Effaith ar drefniadau teithio** | |
| Rwy'n byw'n agosach at Ysgol Bontnewydd. Os ydym yn cael ein cynnwys yn y dalgylch honno, byddwn yn gallu cerdded nei feicio'n ddiogel i'r ysgol, sy'n bwysig i mi. | 1 |
| Gwelaf mai opsiwn 1 sydd efo'r oblygiadau mwyaf o ran costau teithio. Fodd bynnag, nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyma fyddai realiti'r sefyllfa. Awgrymaf y byddai'n bosibl rhedeg un bws yn hytrach na dau. Gallai'r bws ddecrhau yn Saron, teithio am Blythe Farm a ffin y dalgylch, cyn troi yn ol a mynd heibio Ysgol Felinwnda am Dinas, yna ymlaen am Llanwnda ac ar hyd yr A499 am Landwrog. Ni ddylai'r daith yma gymryd mwy nag 20 munud. Sut bynnag, mae'n debyg y bydd gwir gostau teithio unrhyw opsiwn yn dibynnu ar yr union niferoedd a lleoliad disgyblion a'u dewis o ysgol, a faint fydd yn teithio i ysgol y tu allan i'r dalgylch - pa bynnag opsiwn a ddewisir. | 1 |

| **Cylch Meithrin** | |
|---|---|
| • ***Dymuna Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda gael eu cynnwys o fewn dalgylch Ysgol Llandwrog, fel yr unig Gylch Meithrin sy'n bwydo'r ysgol.***<br>• ***Trafodaethau parthed ffurfioli'r berthynas rhwng y Cylch ac Ysgol Llandwrog eisoes eu cynnal.*** | 1 |
| • ***Opsiwn 2 ddim yn sicrhau hyfywdra'r Cylch Meithrin gan fod gan Ysgol Bontnewydd Cylch Meithrin eisoes ar safle'r ysgol.***<br>• ***Gallai cael dau Gylch Meithrin o fewn yr un dalgylch a dim un Cylch yn nalgylch ysgol arall fod yn annheg.*** | 1 |
| • ***Opsiwn 3 hefyd yn golygu y bydd y Cylch Meithrin wedi ei lleoli o fewn ffiniau dalgylch Ysgol Bontnewydd. Gweler pryderon uchod. Byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith andwyol ar y berthynas rhwng y Cylch Meithrin ac Ysgol Llandwrog.***<br>• ***Gallai lleoliad y ffin yn opsiwn 3 fod wedi osod fel ei fod yn adlewyrchu patrwm yr ardal h.y. un rhan (gwledig) fyddai'n mynychu Cylch Meithrin Llanwnda ac yna Ysgol Llandwrog, a rhan arall, fyddai'n tueddu i fynychu Cylch Meithrin Bontnewydd ac yna Ysgol Bontnewydd.***<br>• ***Pryder na fyddai Opsiwn 3 yn sicrhau cynaliadwyedd y Cylch, Ysgol Llandwrog a'r sgil effaith ariannol a chymunedol i'r Ganolfan. Nodir fod y Cylch yn cyflogi 2 aelod o staff ac yn ffynhonnell sefydlog o incwm i'r Ganolfan.***<br>• ***Siomedig nad oes asesiad effaith ar y Cylch wedi ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori*** | 1 |
| Siomedig nag yw talgylch cylch lleol yn cael ei gymeryd i ystyriaeth gan fod cylch dinas a llanwnda yn ffrwd hynod o bwysig sy'n bwydo ysgol Llandwrog. | 1 |
| Pe byddai y dalgylch yn ei drosglwyddo yn ei gyfanrwydd i Ysgol Bontnewydd, yna mae yna risg y byddai rhieni yn penderfynu danfon eu plant i Gylch Meithrin Bontnewydd, oherwydd gall y byddent o'r farn fod trosgwlyddo o Gylch Meithirn Bontnewydd i Ysgol newydd Bpntnewydd yn rhwyddach nag o Gylch Meithrin Dinas a Llanwnda, ac fe fydd cyfleusterau Meithrin newydd yn Ysgol newydd Bontnewydd maes o law, all ddenu niferoedd ar draul Cylch Meithrin DInas a Llanwnda. | 1 |
| **Capasiti Ysgol Bontnewydd newydd** | |
| Dydw i ddim yn hollol arhyhoeddedig y bydd gan Ysgol Bontnewydd ar ei newydd wedd ddigon o gapasiti pan yn agor yn 2026/27, oherwydd er bod capasiti digonol ar hyn o bryd, gall Ysgol Bontnewydd ddenu rhagor o ddisgyblion gan y bydd rhieni yn cael eu hatynu at y ffaith fod ysgol newydd ar y ffordd. Yn ogystal, byddai dewis opsiwn 3 a phennu Ysgol Bontnewydd fel yr ysgol ar gyfer y dalgylch yn golygu fod disgyblion yn trosglwyddo i ysgol fydd mewn cyfnod trosiannol adeiladu am gyfnod o 2 flynedd neu fwy. / ...nad yw'r ffigur hwn [capasiti] wedi'i gadarnhau eto, gan nad yw'r penderfyniad lleoli adnodd ADY yn yr ysgol wedi ei wneud. Pe bydd yr adnodd yn cael ei leoli yn Ysgol Bontnewydd bydd hyn yn effeithio ar gapasiti yr ysgol newydd. Datrysiad Posibl: Sicrhau fod y penderfyniad ynglŷn â lleoliad yr adnodd ADY wedi ei wneud cyn cyflwyno'r penderfyniad i gabinet Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau bod gan y Cabinet ddarlun cyflawn o gapasiti'r ysgol wrth wneud eu penderfyniad. | 3 |
| **Sylwadau Cyffredinol** | |
| Ni ddylid gwneud newidiadau i Dalgylch Felinwnda fydd yn gwneud y dewis hanesyddol mwyafrifol yma yn opsiwn llai ffafriol / mwy beichus i breswylwyr Dalgylch Felinwnda yn y dyfodol. Tra nad yw Corff Llywodraethol Ysgol Bontnewydd yn dymuno achosi unrhyw effaith negyddol ar Ysgol Llandwrog trwy gyflwyno sylwadau, mae ganom ddyletswydd i warchod buddion a chefnogi'r 64% sydd wedi dewis mynychu Ysgol Bontnewydd yn hanesyddol. | 1 |
| Dogfen Ymgynghori: Statws Ysgol Llandwrog Mae'r disgrifiad o statws Ysgol Llandwrog yn anghyflawn. Datrysiad Posibl: Cynnwys dyfyniad cyflawn o adroddiad Estyn i roi gwell cyd-destun: "Lleolir Ysgol Gynradd Llandwrog ym mhentref Llandwrog, tua chwe milltir i'r de o dref Caernarfon. Mae'n ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd." | 2 |

| Tueddiadau hanesyddol | |
|---|---|
| Yn achos Ysgol Felinwnda, mae canran sylweddol o blant y dalgylch wedi bod yn mynychu ysgolion all-dalgylch yn hanesyddol. Cyfartaledd o 11.4% o blant dalgylch Ysgol Felinwnda fynychodd yr Ysgol dros y 5 mlynedd ddwetha. Mae parodrwydd trigolion Dalgylch Felinwnda i gludo plant i'r ysgol o'u dewis yn wedi ei sefydlu eisoes.... Mae poblogaeth Dalgylch Felinwnda eisoes wedi bod yn gwneud dewis ynglŷn a'r ysgol i'w mynychu ers blynyddoedd, gyda mwyafrif llethol yn dewis ysgolion all-dalgylch. Mae cyfartaledd o 64% dros y 5 mlynedd ddiwethaf (3.1) wedi dewis Ysgol Bontnewydd a chyfartaledd o ychydig dros 12% wedi dewis Ysgol Llandwrog.... Mae mwyafrif poblogaeth Dalgylch Felinwnda wedi dewis Ysgol Bontnewydd tros gyfnod o flynyddoedd tra 'roedd statws all-dalgylch yn effeithio Ysgol Llandwrog a Ysgol Bontnewydd mewn ffordd gyfartal. | 1 |
| **Effaith adolygu'r dalgylch** | |
| Mae'n amheus pa effaith os o gwbwl bydd unrhyw newid mewn trefniadau dalgylch yn gael ar ddewis ysgol poblogaeth Dalgylch Felinwnda, ond nid yw hynny yn golygu dylid anwybyddu materion o egwyddor. Deallwn mae effeithiau ymarferol bod o fewn dalgylch, mewn cymhariaeth a bod yn all-dalgylch yw;<br>- fod hawl cryfach i le yn yr ysgol I blant y dalgylch yr ysgol ddynodedig.<br>- fod hawl i gludiant i ddisgyblion sy'n byw dros 2 filltir o'r ysgol ddynodedig (neu bellter is os yw'r llwybrau cerdded yn beryglus).<br>Mae'r opsiynau gynigir, i gynnwys opsiwn 3 yn gorfodi dewis os bydd plant Dalgylch Felinwnda yn meddu ar yr hawliau uchod mewn perthynas a Ysgol Llandwrog neu Ysgol Bontnewydd. | 1 |

## Rhan 2:

**Cwestiwn 4 – 8: Asesu'r Effaith**

Yn ail ran yr holiadur, gofynnom am sylwadau am effeithiau posib yr opsiynau, ac unrhyw effeithiau/faterion ddylai'r Cyngor eu hystyried fel rhan o'u hasesiadau effaith.

Mae'r sylwadau a materion a nodwyd fel ymateb i'r 5 cwestiwn wedi eu categoreiddio a'u crynhoi fesul pennawd yn y tabl isod. Pan mae ymatebwyr wedi cynnig sylwadau cyffredinol o dan gwestiynau penodol, yna mae'r pwyntiau hynny wedi'u cynnwys o dan y pennawd mwyaf perthnasol yn y tabl isod.

Mae'r sylwadau isod yn cynnwys cymysgedd o ddyfyniadau uniongyrchol ac aralleirio (lle na dderbyniwyd caniatâd i gyhoeddi'r ymatebion). Mae'r testun a aralleiriwyd wedi ei ***amlygu'n las***.

| Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol | Amlder y sylwad |
|---|---|
| Mae'n amheus pa effaith os o gwbwl bydd unrhyw newid mewn trefniadau dalgylch yn gael ar ddewis ysgol preswylwyr Dalgylch Felinwnda. Er hynny, rhaid cydnabod fod Categori Cyfreithiol Ysgolion Bontnewydd a Llandwrog yn wahanol gyda Ysgol Bontnewydd wedi ei dynodi fel Ysgol Gymunedol a Llandwrog ) wedi ei dynodi fel Gwirfoddol a Reolir (VC) Yr Eglwys yng Nghrymu. Cynnigir fod y gwahaniaeth yma mewn dynodiad yn berthnsaol I asesiad nodweddion cydraddoldeb (noder fod crefydd a chred yn nodwedd warchodedig) ac mae'r asesiadau unfath yn anisgwyl. Tybed fyddai'n werth ail ymweld a hyn? | 1 |
| Dim newid | 1 |
| Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn nodi yr isod heb egluro sut nag chwaith gyfeirio at unrhyw dystiolaeth neu raglen waith sydd am alluogi hyn i ddigwydd. "Fel nodir yn y tabl yn adran 3.2, ni ragwelir y byddai'r un o'r 3 opsiwn dan sylw yn creu Anfantais Economaidd- Gymdeithasol. Byddai trosglwyddo dalgylch Felinwnda i fod yn rhan o ddalgylch Ysgol Llandwrog a/neu Ysgol Bontnewydd yn gwella adfywiad cymunedol drwy annog cydweithredu â chymunedau lleol. Gall y newid gynnig cyfleoedd newydd ar gyfer dysgwyr a chymuned Felinwnda gan sicrhau bod pobl yn parhau i ddatblygu yn broffesiynol ac yn gyfranogol yn yr economi leol. Byddai'r newid yn annog cydweithrediad gyda chymunedau ehangach ac fe all hyn greu cysylltiadau gwerthfawr rhwng | 3 |

| | |
|---|---|
| cymunedau, gan alluogi cyfleoedd a chynhwysiant cymdeithasol." Datrysiad Posibl: Sicrhau fod yna fwy o fanylder ynglŷn â sut mae Cyngor Gwynedd am wireddu "adfywiad cymunedol" yn yr ardal. | |
| Mae iaith iard yr ysgol yn hynod bwysig ac bu hyn yn rhan o'n penderfyniad i fynd ar [plentyn] i Llandwrog yn hytrach na Bontnewydd pan roedd dyfodol Felinwnda o dan gwestiwn. | 1 |
| Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn nodi rhai heriau hygyrchedd yn Ysgol Llandwrog ond nid yw'n darparu manylion pellach. Nid oes trafodaeth am heriau dros dro i Ysgol Bontnewydd cyn bod yr adeilad newydd yn barod. Datrysiad Posibl: Sicrhau gonestrwydd ynglŷn â'r heriau yn safle cyfredol Bontnewydd a sicrhau fod cynlluniau (wedi eu hariannu) yn ei le ar gyfer Ysgol Llandwrog i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010. | 2 |
| • ***Dylai rhieni gael opsiwn o ysgol sydd ddim yn ysgol eglwysig. Rwy'n ffafrio Ysgol Bontnewydd gan ei bod yn ysgol gymunedol.*** | 1 |
| **Effaith ar y Gymuned** | |
| Asesiad Effaith Cymunedol: Trafnidiaeth a Llwybrau Diogel Mae'r asesiad yn gorsymleiddio realiti llwybrau cerdded diogel i blant sy'n byw o fewn 2 filltir i'r ysgol. Tra bod llwybr diogel i'r rhai ger Lôn Las, ni ellir dweud yr un peth am blant o Saron, a chymunedau gwledig eraill a fyddai'n gwynebu'r un heriau wrth gerdded i Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog. Mae honiad yr asesiad y byddai "opsiwn 2 a 3 yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles trwy gynnig cyfle i rai dysgwyr gerdded i'r ysgol" yn gamarweiniol, yn enwedig gan fod y mwyafrif o'r disgyblion a fyddai'n gallu cerdded yn ddiogel i'r ysgol eisioes yn mynychu Ysgol Bontnewydd. Bydd y rhwystrau i gerdded yn ddiogel yn dal i fodoli i blant sydd heb lwybr diogel i'r ysgol ar ôl unrhyw newid i'r ffin, oni bai bod buddsoddiad pellach yn cael ei wneud i greu llwybrau mwy diogel. Datrysiad Posibl: Addasu'r asesiad effaith i "Niwtral" oni bai bod newidiadau'n cael eu gwneud i'r amgylchedd ffisegol (e.e. buddsoddi mewn llwybrau cerdded diogel newydd). Heb newidiadau o'r fath, bydd y rhwystrau presennol yn parhau, ac mae'r casgliad a luniwyd felly yn anghywir. | 2 |
| • ***Siomedig o cyn-lleied o sylw mae'r Ganolfan yn ei gael yn y ddogfennaeth***<br>• ***Byddai lleoli'r Cylch o fewn dalgylch Bontnewydd yn debygol o gael effaith andwyol ar niferoedd y Cylch.***<br>• ***Byddai unrhyw effaith andwyol ar niferoedd y Cylch Meithrin, all achosi'r Cylch fod yn anghynaladwy, arwain at golled incwm i'r Ganolfan.*** | 1 |
| • ***Gwall yn y ddogfen – nid oes Cylch Ti a Fi yn nalgylch Felinwnda.*** | 1 |
| • ***Siomedig am y diffiniad cul o iechyd a lles yn y ddogfen ymgynghori.***<br>• ***Ymdeimlad o berthyn angen ei ystyried fel ffactor allweddol.*** | 1 |
| Asesiad Effaith Cymunedol: Iechyd a Llesiant Mae'r ddogfen yn datgan: "Gall bod mewn ysgol fwy gynnig mwy o gyfleoedd chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon tîm, ac o ganlyniad gall gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant y dysgwyr." Mae aelod o lywodraethwyr yr ysgol yn Swyddog Iechyd a Lles mewn awdurdod addysg, yn arbenigo mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon, ac wedi lleisio eu barn nad oes sail i'r datganiad hwn. Mae hefyd wedi codi pryder fod hyn yn ddarlun cyfyng iawn o iechyd a lles yn enwedig gan fod y Cwricwlwm i Gymru yn cymryd golwg ehangach o'r maes, sy'n cynnwys iechyd corfforol, diet cytbwys, cwsg, hylendid personol, ac amddiffyn rhag ymddygiadau sy'n niweidio iechyd, ac nid yw'n cyfeirio'n benodol at chwaraeon tîm. Datrysiad Posibl: Dylid cynnwys archwiliad manylach o iechyd a lles, gan drafod y manteision a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog yn benodol, heb eu cyffredinoli i ysgolion mwy a llai. Mae angen ystyried diffiniadau ehangach a ddarperir gan y Cwricwlwm i Gymru ar Fframwaith ar Ymgorffori Ymagwedd Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol (Llywodraeth Cymru, 2021). Dylai'r dadansoddiad symud y tu hwnt i chwaraeon tîm ac ystyried ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar lesiant disgyblion. | 2 |
| Mae'n amheus pa effaith os o gwbwl bydd unrhyw newid mewn trefniadau dalgylch yn gael ar ddewis ysgol preswylwyr Dalgylch Felinwnda. Yn absenoldeb unrhyw newid gwirioneddol yn y duedd, ni ragwelir unrhyw wir effeithiau newydd ar y naill gymuned. | 1 |
| Gan fod Ysgol Felinwnda wedi cau, mae'n bwysig fod y penderfyniad ar y mater yma yn diogelu yr adnoddau cymunedol sydd yn parhau yng nghymuned Llanwnda - Canolfan Bro Llanwnda a Chylch Meithrin Dinas a Llanwnda. Credaf mai opsiwn 1 fyddai'n gwneud hyn orau. | 1 |

| | |
|---|---|
| Wrth beidio ystyried ardal cylch dinas a llanwnda byddai aseinio'r ardal i Bontnewydd fod yn gwneud dyfodol y cylch yn anodd iawn. Gall hyn gael effaith andwyol i'r cylch ar gymuned sydd yn cefnogi'r cylch | 1 |
| Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned: Cylch Meithrin "ni ragwelir y byddai trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol a'r defnydd cymunedol o Ganolfan Bro Llanwnda." Nid yw'r datganiad yma yn gywir. Mae tystiolaeth yn dangos fod y rhieni o ddalgylch Felinwnda sydd yn mynd a'u plant i Ysgol Bontnewydd yn mynd a'u plant i Gylch Meithrin Bontnewydd. Ers nifer o flynyddoedd mae mwyafrif o blant sydd yn mynychu Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda yn pontio i Ysgol Llandwrog. Os yw'r sir yn penderfynu ffurfioli ardal Felinwnda yn nalgylch Bontnewydd bydd disgwyl i fwy o rieni fynd a'u plant i Ysgol Bontnewydd, ac yn naturiol bydd yn golygu mwy o blant yn mynd i Gylch Meithrin Bontnewydd a llai yn mynychu'r Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda. Er bod Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda mewn lle da erbyn hyn, mae'r pwyllgor wedi gweithio yn galed iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf i sicrhau dyfodol i'r Cylch yma. Mi fyddai colli carfan fechan o blant o'r cylch yn gwneud y cylch yn anghynaladwy, a fyddai yn arwain i ddau aelod o staff golli eu gwaith, ac incwm y ganolfan yn disgyn yn sylweddol. Datrysiad Posibl: Addasu'r asesiad effaith i "Negyddol" oherwydd gallai hyd yn oed gostyngiad bach yn nifer y disgyblion sy'n mynychu y Cylch Meithrin gael effaith mawr ar y gwasanaeth cymunedol gwerthfawr yma, ac ar inclwm y ganolfan. | 3 |
| • ***Angen rhoi ystyriaeth i bwysigrwydd ysgolion gwledig i'r gymuned o fewn yr asesiad effaith.***<br>• ***Angen ystyried sut ellir cynyddu niferoedd dysgwyr mewn ysgolion gwledig megis Ysgol Llandwrog***<br>• ***Dylid ystyried sut fyddai cynnig cludiant o ardal Saron i ysgol sydd efo niferoedd uchel eisoes yn cael effaith negyddol ar Ysgol Llandwrog i'r dyfodol.***<br>• ***Nodwyd y cyswllt agos sydd rhwng cymunedau Saron a Llandwrog eisoes – cyfle i'w gryfhau (drwy ddewis Opsiwn 1).*** | 1 |
| • ***Dylai rhieni gael opsiwn o ysgol sydd ddim yn ysgol eglwysig. Rwy'n ffafrio Ysgol Bontnewydd gan ei bod yn ysgol gymunedol.*** | 1 |
| **Effaith ar y Gymraeg** | |
| Mae'n amheus pa effaith os o gwbwl bydd unrhyw newid mewn trefniadau dalgylch yn gael ar ddewis ysgol preswylwyr Dalgylch Felinwnda. Mae dynodiadau Ysgolion Bontnewydd a Llandwrog yr un fath, ac mae'r proffiliau yn debyg iawn. Rhagwelir fod yr effaith ar yr iaith Gymraeg yn gyson ar draws y 3 Opsiwn yn y ddogfen ymgynghori a'r opsiwn amgen gynigir yn yr ymateb hwn. | 1 |
| • ***Byddai trosglwyddo'r dalgylch i dalgylch Ysgol Bontnewydd yn golygu fod y Cylch yn disgyn o fewn dalgylch Bontnewydd. Gallai hynny gael effaith andwyol ar niferoedd y Cylch ac yn y pendraw ar Ysgol Llandwrog, ac hefyd ar y Ganolfan. Gallai effaith negyddol (pwysau ariannol) ar y Ganolfan olygu newidiadau o ran y gwasanaethau maent yn eu cynnig i'r ardal Gymraeg leol.*** | 1 |
| Ystyried lefel iaith y pentrefi er mor fach | 1 |
| Na | 1 |
| ***Byddai'r effaith yr un fath ar gyfer pob opsiwn gan fod pob opsiwn yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg.*** | 1 |
| **Effaith ar Llesiant** | |
| • ***Pob un o blant Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda wedi trosglwyddo i Ysgol Llandwrog yn y ddwy flynedd diwethaf. Angen ystyried y patrwm yma wrth lunio ffiniau newydd y dalgylch.*** | 1 |
| Mae'r asesiad effaith llesiant yn dod i'r casgliad mai opsiwn 2 fyddai yn cael yr effiath llesiant mwyaf positif gan fod yna lwybr cerdded adds i Ysgol Bontnewydd, ond nad oes un i Ysgol Llandwrog. Dydy hi ddim yn glir beth yn union a olygir gan 'lwybr cerdded addas.' Os mai cyfeirio at Lon Eifion y mae hyn, yna tra y cydnabyddir ei bod hi'n bosibl defnyddio Lon Eifion o Dinas am Bontnewydd am ran o'r daith o Dinas i Fontnewydd, mae'n rhaid parhau i gerdded o Lomn Elfion ym Montnewydd ar hyd ffordd ddi-ddosbarth at yr ysgol. Yn ogystal, gan fod llawer orieni yn gweithio yng nghyfeiriad Caernarfon ac i'r gogledd, yna yn ymarferol, mae'n debyg mai car fyddent yn ei ddefnyddio i gludo eu plant i Ysgol Bontnewydd beth bynnag. | 1 |
| Lles y plant sydd â cefndir gefn gwlad | 1 |

| | |
|---|---|
| Asesiad Effaith Llesiant: “Cydweithredu; Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau.” Mae'r dadansoddiad o gydweithio yn gyfyngedig iawn, ac mae ystod y rhanddeiliaid dan sylw yn gyfyng.<br>Datrysiad Posibl: Ehangu’r dadansoddiad i gynnwys rhanddeiliaid ychwanegol, megis grwpiau cymunedol, clybiau chwaraeon, darparwyr trafnidiaeth, a busnesau lleol. Mae angen sicrhau bod cyfleoedd cydweithio yn cael eu harchwilio’n llawn mewn perthynas â phob opsiwn. | 3 |
| Asesiad Effaith Llesiant: "Tymor Hir; Cydbwyso anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a hynllunio ar gyfer y dyfodol. " Mae'r un datganiad yn cael ei ailadrodd ar gyfer y tri opsiwn, gan nodi eu bod i gyd yn "cynllunio ar gyfer cyfundrefn addysg hirdymor". Fodd bynnag, nid oes sôn penodol am ddatblygiad ysgol newydd yn y Bontnewydd na dadansoddiad o anghenion tymor hir Ysgol Llandwrog.<br>Datrysiad Posibl: Ehangu'r dadansoddiad i ystyried sut mae pob opsiwn yn effeithio ar hyfywedd hirdymor Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd. | 2 |
| Asesiad Effaith Llesiant: "Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio’n effeithiol ac effeithlon" Mae diffyg gwybodaeth yn y ddogfen yn manylu os yw Cyngor Gwynedd wedi ymgynghori'n uniongyrchol â dysgwyr am eu dyfodol. Nid oes unrhyw sôn am fforymau llais y disgybl na mecanweithiau eraill ar gyfer cael mewnbwn gan fyfyrwyr. A yw hyn yn gyson a siarter Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Datrysiad Posibl: Nodwch a ymgynghorwyd â dysgwyr fel rhan o’r broses hon, neu eglurwch pam na ymgynghorwyd â nhw. Cydweithio a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i sicrhau fod llais y dysgwyr yn ganolog i'r penderfyniad. | 2 |
| Nagoes. Mae dynodiadau Ysgolion Bontnewydd a Llandwrog yr un fath, ac mae’r proffiliau yn debyg iawn. | 1 |
| Asesiad Effaith Llesiant: “Cymru o gymunedau gydlynus; Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da”. Mae cyflwyno ystadegau anghysylltiedig yn yr un adran yn creu dryswch. Mae'r ddogfen yn cyfuno ffigyrau am ganran y plant sy'n mynychu Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog gyda gwybodaeth am y Cylch Meithrin, gan arwain at ddehongliad camarweiniol bod y Cylch Meithrin yn bwydo i'r ddwy ysgol. Mae’n ffeithiol anghywir awgrymu mai dim ond 12% o blant sy’n trosglwyddo o Gylch Meithrin Bro Llanwnda i Ysgol Llandwrog, a bod 61% o’r plant yn trosglwyddo i Ysgol Bontnewydd, sydd ymhlyg yng nghyflwyniad y data. Datrysiad Posibl: Egluro'r berthynas rhwng y Cylchodd Meithrin a’r ysgolion. Darparwch y ffigurau cywir sy'n dangos ble mae disgyblion o Gylch Meithrin Bro Llanwnda yn trosglwyddo ac i le mae disgyblion o Gylch Meithrin Bontnewydd yn trosglwyddo. | 3 |
| Asesiad Effaith Llesiant: “Cymru o gymunedau gydlynus; Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da”. Mae gwall yn y ddogfen gan ei bod yn nodi'n anghywir bod Cylch Ti a Fi yn nalgylch Felinwnda. Datrysiad Posibl: Cywiro'r gwall ynglŷn â'r Cylch Ti a Fi, | 2 |
| Asesiad Effaith Llesiant: "Rhoi’r cychwyn gorau posib mewn bywyd i’n plant a’n pobl ifanc" Yn y dadansoddiad mae’r Cymraeg a Saesneg yn wahanol “gymdeithasu gydag ystod sylweddol ehangach o gyfoedion” “with a broader range of age-relevant” Mae hyn yn amlygu gan fod y fersiwn Saesneg yr un peth i’r tri opsiwn. Hefyd mae’r ddogfen yn nodi y byddai pob opsiwn yn caniatáu i blant “gymdeithasu ag ystod ehangach” neu “ystod sylweddol ehangach o gyfoedion oed-berthnasol,” ond nid yw’n glir beth yw ystyr “ehangach” yn y cyd-destun hwn. Ehangach na be? Gan bwysleisio ar ‘ehangach’ mae’r ddogfen yn methu pwyso a mesur y dyfnder y berthynas yn y gymuned ar ymdeimlad o berthyn, sydd yn cynnwys perthnasoedd sydd yn pontio'r cenedlaethau.<br>Datrysiad Posibl: Sicrhau ei fod yn glir beth a olygir gan "ehangach" ym mhob opsiwn trwy nodi beth yw'r llinell sylfaen ar gyfer cymharu. Darparwch ddadansoddiad manylach ar gyfer pob opsiwn, gan egluro sut mae cyfansoddiad y grŵp cyfoedion yn wahanol. Hefyd mae angen ehangu'r dadansoddiad i gynnwys yr ymdeimlad o berthyn i’r gymuned ehangach. | 2 |
| Asesiad Effaith Llesiant: "Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i’r argyfwng newid hinsawdd" Nid yw'r dadansoddiad o Opsiwn 2 ac Opsiwn 3 yn rhoi manylion penodol am ganran y disgyblion sy'n gallu defnyddio llwybrau addas i gerdded i'r ysgol. Nid yw Opsiwn 2 yn crybwyll unrhyw angen am gludiant, tra bod Opsiwn 3 yn nodi cludiant i Ysgol Llandwrog, ond dim yn crybwyll y cludiant i ddisgyblion heb lwybrau diogel i Ysgol Bontnewydd (gweler y pwynt blaenorol).<br>Datrysiad Posibl: Sicrhau fod dadansoddiad cyflawn o gyfran y disgyblion y bydd angen cludiant ar gyfer y ddwy ysgol, a sicrhau fod llwybrau diogel yn cael eu hasesu'n llawn ar gyfer Opsiwn 2 ac Opsiwn 3. | 2 |

| **Trefniadau Teithio** | |
|---|---|
| Dwi'n meddwl ei fod yn bwysig ystyried sut gall bobl gael mynediad hawdd at ysgolion heb gludiant. A ellir gwneud unrhyw newid i'r llwybrau beics, croesfannau ayyb er mwyn gallu bobl i gyrraedd yr ysgol yn saff? E.e. nid oes posib cyrraedd meithrinfa Pitian Patian yn Llandwnda yn ddiogel ar droed na chludiant cyhoeddus. Mae hynny'n gorfodi rhieni i gael fynediad at gar, sydd ddim bob tro'n bosib, neu i fod mewn peryg yn croesi lonydd prysur. | 1 |
| Mae'r asesiad effaith yn rhagdybio bydd disgyblion Dalgylch Felinwnda yn mynychu pa bynnag ysgol fydd yr ysgol ddynodedig newydd ar gyfer y dalgylch honno. Mae'n amheus os yw hyn yn rhagdybiad cywir, cynigir ei bod yn fwy tebygol i'r patrymau mynychu barhau gyda rhieni a gwarcheidwaid yn cludo plant i'r ysgol o'u dewis os yn all-dalgylch.  Mae'n bosib byddai budd o ystyried potensial y gwahanol opsiynau ar gyfer lleihad niferoedd a phellteroedd teithio preifat i'r ysgol. Gall bydd buddion amgylcheddol o leihau teithio (er byddai gwahaniaethu rhwng teithio unswydd a teithio ar y ffordd yn anodd), mae'n fwy tebygol byddai buddion rheolaeth traffig a pwysau parcio o leihau nifer cerbydau preifat ger yr ysgolion. Byddai darpariaeth bws a lleihad teithio preifat I Ysgol Bontnewydd yn ddymunol am resymau rheolaeth traffig | 1 |
| Gwelaf mai opsiwn 1 sydd efo'r oblygiadau mwyaf o ran costau teithio. Fodd bynnag, nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyma fyddai realiti'r sefyllfa. Awgrymaf y byddai'n bosibl rhedeg un bws yn hytrach na dau. Gallai'r bws ddecrhau yn Saron, teithio am Blythe Farm a ffin y dalgylch, cyn troi yn ol a mynd heibio Ysgol Felinwnda am Dinas, yna ymlaen am Llanwnda ac ar hyd yr A499 am Landwrog. Ni ddylai'r daith yma gymryd mwy nag 20 munud. Sut bynnag, mae'n debyg y bydd gwir gostau teithio unrhyw opsiwn yn dibynnu ar yr union niferoedd a lleoliad disgyblion a'u dewis o ysgol, a faint fydd yn teithio i ysgol y tu allan i'r dalgylch - pa bynnag opsiwn a ddewisir. | 1 |
| Mae parcio a casglu yn Bontnewydd yn heriol iawn | 1 |
| Asesiad Effaith Teithio: Llwybrau Diogel<br>Nid oes unrhyw fapiau na dadansoddiadau sy'n dangos pa lwybrau sy'n cael eu hystyried yn ddiogel i ddisgyblion gerdded i'r ysgol. Heb y wybodaeth yma bydd y darlun sydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn anghyflawn, ac yn ei wneud yn amhosib iddynt wneud penderfyniad gwybodus. Yn ogystal, gall diffyg eglurder ar lwybrau diogel gyfrannu at amwysedd yr amcangyfrifon o gostau trafnidiaeth a ddarperir ar gyfer pob opsiwn. Datrysiad Posibl: Cynnal dadansoddiad trylwyr o lwybrau diogel i'r ysgol, wedi'i ategu gan fapiau a disgrifiadau manwl, cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet. | 1 |
| Dogfen Ymgynghori: Cysondeb o ran Nifer y Disgyblion a'r Costau Cysylltiedig<br>Yn anffodus nid yw'r ffigyrau yma yn gwneud unrhyw synnwyr.<br>Opsiwn 1 - Llandwrog<br>45 plentyn angen bws i Ysgol Llandwrog<br>Opsiwn 2 - Bontnewydd<br>18 o blant angen bws i Ysgol Bontnewydd<br>Opsiwn 3 - Rhannu dalgylch<br>18 o blant angen bws i Ysgol Bontnewydd<br>28 o blant angen bws i Ysgol Llandwrog<br>Yn Opsiwn 3, nodir bod 28 o blant pellach angen cludiant i Ysgol Llandwrog os yw'r dalgylch yn cael ei rannu. Pam does dim angen bws i'r 28 plentyn yma i Bontnewydd yn Opsiwn 2?<br>Datrysiad Posibl: Darparwch esboniad manwl o sut y bydd y 28 o blant o ardal Dinas/Llanwnda yn cael eu cynnwys yn Opsiwn 2, a sicrhau bod anghenion cludiant a chostau cysylltiedig yn cael eu cyflwyno'n gyson ar draws yr holl opsiynau. | 2 |
| Asesiad Effaith Teithio: Pwyslais ar opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus<br>Mae'r ddogfen yn rhoi pwyslais dro ar ôl tro ar fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys bysiau ysgol uwchradd, ond eto mae'n cydnabod "Er hynny, nid yw'n arferol i blant cynradd ddefnyddio bysiau ysgolion uwchradd." Er gwaethaf hyn, mae llwybrau bysiau uwchradd yn cael eu crybwyll dro ar ôl tro fel opsiwn trafnidiaeth posibl ar gyfer disgyblion oed cynradd, er eu bod yn annhebygol o gael eu defnyddio'n ymarferol. Mae hyn yn creu datgysylltiad rhwng amlygrwydd gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus yn yr asesiad a'i berthnasedd neu ddefnyddioldeb gwirioneddol i ddysgwyr ysgolion cynradd. Yn ogystal, er gwaethaf y cyfeiriadau cyson, nid yw opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu hystyried yn y casgliadau na'r argymhellion terfynol, a allai achosi dryswch ynghylch a ydynt yn cael eu hystyried yn realistig fel rhan o'r atebion arfaethedig.<br>Datrysiad Posibl: Egluro perthnasedd llwybrau bysiau ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion oed cynradd, | 2 |

| | |
|---|---|
| a naill ai darparu dadansoddiad manwl o sut y gellid defnyddio'r opsiynau hyn yn ddiogel ar gyfer dysgwyr iau neu leihau eu hamlygrwydd yn yr asesiad. Sicrhau bod unrhyw gyfeiriadau at opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus yn gyson â'r casgliadau a'r argymhellion terfynol. | |
| **Materion data a chysondeb** | |
| Gweithgareddau ar ôl Ysgol<br>Mae'r Asesiad Effaith Cymunedol yn nodi gwahanol gyfleusterau cymunedol, ond mae'r ddogfen Asesiad Effaith Ieithyddol yn canolbwyntio ar weithgareddau ar ôl ysgol yn adeilad yr ysgol a neuadd y pentref yn unig. Gan nad oes neuadd bentref yn Llandwrog, mae'r ddogfen yn anwybyddu unrhyw ddigwyddiadau sydd yn digwydd mewn cyfleusterau ehangach o fewn dalgylch Llandwrog.<br>Datrysiad Posibl: Sicrhau cysondeb rhwng y dogfennau, a bod yr adroddiad yn cyfleu a darlun cyflawn o'r hyn sydd yn digwydd yng nghyfleusterau cymunedol sydd yn disgyn o fewn naill dalych. | 2 |
| Mae'r ddogfen yn defnyddio ffigurau anghyson o ran canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Er enghraifft, mae'n dyfynnu 95.5% ar gyfer Ysgol Bontnewydd, nad yw'n cyd-fynd ag adroddiadau CYBLD (93%) nac adroddiadau Estyn 75%). Mae'r anghysondebau hyn yn gwanhau'r dadansoddiad ac yn creu dryswch. Datrysiad Posibl: Sicrhau bod y ffigurau a ddefnyddir yn y ddogfen yn gyson yn defnyddio'r data mwyaf diweddar a dibynadwy, megis CYBLD Ionawr 2024. Gan fod Estyn yn defnyddio data CYBLD wrth lunio eu hadroddiad nid yw'n glir pam fod angen cyfeirio at ddata o 2017 a 2019. Os oes rheswm dros gynnwys data yma dylir sicrhau fod perthnasedd y data i'r dadansoddiad fod yn glir. | 2 |
| Gweithgareddau ar ôl Ysgol: Mae'r ddogfen Asesiad Effaith Ieithyddol yn rhestru Cylch/Ysgol Feithrin fel gweithgaredd ar ôl ysgol yn Bontnewydd. Datrysiad Posibl: Dileu Cylch/Ysgol Meithrin o'r rhestr o weithgareddau ar ôl ysgol, gan nad yw wedi'i fwriadu i'r diben hwn. | 2 |

**Rhan 3:**

**Effaith ar yr Iaith Gymraeg:**

Yn olaf, yn unol â Safonau'r Gymraeg, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried effeithiau penderfyniadau polisi y mae'n eu gwneud ar y Gymraeg, gofynnwyd cwestiynau penodol ychwanegol yn ymwneud a'r effaith ar y Gymraeg.

Mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi eu nodi yn y tablau isod. Mae'r sylwadau isod yn cynnwys cymysgedd o ddyfyniadau uniongyrchol ac aralleirio (lle na dderbyniwyd caniatâd i gyhoeddi'r ymatebion). Mae'r testun a aralleiriwyd wedi ei ***amlygu'n las***.

| **D1: Yn eich barn chi, pa effeithiau, os o gwbl (positif neu andwyol) y byddai'r opsiynau yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
|---|
| Dim gwahaniaeth effaith.<br>Mae dynodiadau Ysgolion Bontnewydd a Llandwrog yr un fath, ac mae'r proffiliau yn debyg iawn. Rhagwelir fod yr effaith ar yr iaith Gymraeg yn gyson ar draws y 3 Opsiwn gyn y ddogfen ymgynghori a'r Opsiwn amgen gynigir yn yr ymateb hwn. |
| • ***Byddai effaith andwyol ar y Cylch Meithrin yn gallu arwain at golli darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.*** |
| Gyda iaith iard mor hawdd yn newid i Saesneg mae'n ysgol Gymraeg fel Llandwrog yn gallu hybu yr iaith yn well gyda disgyblion di Gymraeg yn gael eu trochi yn yr iaith |

| **D2: Yn eich barn chi, a fyddai modd llunio neu addasu'r opsiynau er mwyn sicrhau eu bod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
|---|
| Blaenoriaethu ysgol Llandwrog a sicrhau fod pentrefi gwledig yn gwasanaethu ysgol wledig |

| **D3: Yn eich barn chi, a fyddai modd llunio neu addasu'r opsiynau er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effeithiau andwyol, neu'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
|---|
| *[Ni dderbyniwyd ymateb.]* |